Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanychllwydog
# Pontfaen
# Abergwaun
# Sir Benfro
# SA65 9SE

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn Ysgol Llanychllwydog

Lleolir Ysgol Llanychllwydog yng Nghwm Gwaun, ger Abergwaun, yng ngogledd Sir Benfro. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 26 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 5 oed meithrin rhan amser. Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth, un ar gyfer y cyfnod sylfaen a'r llall ar gyfer cyfnod allweddol 2. Tua 57% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol. Nid oes un disgybl yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 25% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Penodwyd y pennaeth gweithredol i'w swydd ym mis Medi, 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n annog disgyblion i ddangos lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill.  Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.  Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda ac maent yn awyddus iawn i ddysgu.  Mae'r athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus.  Mae'r Gymraeg yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol ac mae'r staff yn sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o hanes a diwylliant Cymru a'r ardal leol.  Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol yn llwyddiannus.  O ganlyniad, maent yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth, safonau a lles disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r holl ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig yn fwy cyson ar draws y cwricwlwm

A3 Datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethol wrth roi cyfeiriad strategol i'r ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae llawer o'r disgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn effeithiol ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n fuan. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg drwy ddefnyddio patrymau brawddeg syml yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn mynegi barn yn synhwyrol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau oedolion a disgyblion eraill. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn siarad am eu gwaith â hyder cynyddol yn y ddwy iaith gan ddefnyddio geirfa addas. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn ymuno'n frwdfrydig â thrafodaethau, er enghraifft wrth drafod arbrofion gwyddonol. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Mae disgyblion iau yn caffael dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau ac yn eu defnyddio'n effeithiol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Gall lawer drafod eu hoff lyfrau yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen ar goedd yn y ddwy iaith gyda chywirdeb a rhuglder, gan drafod y prif ddigwyddiadau a'r cymeriadau yn briodol. Maent yn trafod amrywiol destunau ac yn ateb cwestiynau'n effeithiol ar yr hyn maent yn ei ddarllen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn deall diben llyfrau ffeithiol ac yn eu defnyddio'n addas i gasglu gwybodaeth, er enghraifft yn eu hymchwil ar wahanol organau'r corff.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu erbyn diwedd y cyfnod sylfaen. Mae llawer yn amrywio'u brawddegau, yn atalnodi'n gywir, ac yn defnyddio ystod ddiddorol o ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyron synhwyrol at gyngor y gymuned i gwyno am sbwriel ar yr heol. Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn gyson dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n drefnus yn y ddwy iaith gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn rhesymegol ac yn effeithiol. Fodd bynnag, ar adegau, mae nifer y taflenni gwaith yn y ddau gyfnod yn cyfyngu ar fedrau ysgrifennu estynedig ychydig o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o'u medrau llythrennedd mewn meysydd amrywiol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymdrin ag ystod eang o weithgareddau rhif yn effeithiol. Wrth symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae llawer yn adnabod siapiau, deall pwrpas arian ac yn defnyddio amser yn ymarferol. Mae llawer yn defnyddio'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn synhwyrol i ddadansoddi a datrys problemau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mathemateg llawer o ddisgyblion yn dda ac maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau cyfrifo yn gywir. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o rif ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae medrau mathemateg pen llawer ohonynt yn datblygu'n llwyddiannus. Mae llawer yn defnyddio unedau safonol i fesur a chynnal tasgau ar gynhwysedd ac maent yn defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol. Mae llawer yn

datrys problemau yn ymwneud ag arwynebedd yn llwyddiannus, er enghraifft wrth fesur gwahanol gaeau yn yr ardal. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion bob amser yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws gwahanol elfennau o'r cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn canfod gwybodaeth o ffynonellau gwahanol ar fywyd y broga ac arlunwyr fel Monet. Mae'r rhan fwyaf yn cyfarwyddo ag arbed eu gwaith yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio TGCh yn briodol i gyflwyno data ar ffurf graffiau gwahanol. Maent yn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn drefnus a deniadol gan ddefnyddio prosesydd geiriau, er enghraifft wrth greu darnau o farddoniaeth ac i gofnodi eu hymchwil ar y gwledydd sy'n cynhyrchu coffi yn y byd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio taenlenni yn bwrpasol i gynhyrchu tablau a graffiau. Er enghraifft, maent yn creu siartiau effeithiol i gymharu bywyd gwyllt. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd unrhyw beth yn eu poeni. Mae ganddynt hyder yn y staff i ddarparu cefnogaeth iddynt os fydd angen. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol. Wrth gwrdd â phobl sy'n anghyfarwydd iddynt, maent yn gwrtais, yn gwrando'n ofalus, ac yn trafod a mynegi barn yn aeddfed. Mae bron pob disgybl yn ofalgar iawn o'i gilydd ac aelodau'r staff.

Mae agweddau disgyblion tuag at ddysgu yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn canolbwyntio'n dda, yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau. Maent yn gweithio'n effeithiol fesul pâr neu grŵp ac yn cefnogi ei gilydd i ddysgu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn dangos balchder tuag at eu gwaith ac yn siarad yn hyderus am yr hyn maent wedi ei gyflawni. Maent yn datblygu i fod yn ddisgyblion annibynnol sy'n barod i chwarae rôl lawn ym mywyd yr ysgol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain. Mae aelodau'r cyngor ysgol, y cyngor eco a'r pwyllgor iach yn frwdfrydig iawn ac yn chwarae rôl amlwg ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn trefnu a rheoli gweithgareddau i ddisgyblion eraill ac yn cyfrannu'n gyson at wahanol elusennau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gref a balchder mawr yn eu hardal ac yn y gymuned leol. Maent yn cyfrannu'n helaeth at ystod eang o ddigwyddiadau, cyngherddau a gweithgareddau cymdeithasol. Er enghraifft, maent yn cynnal diwrnod agored yn yr ysgol i aelodau'r gymuned, yn dosbarthu cacennau ar ddiwrnod 'Shwmae' ac yn canu carolau adeg yr hen galan.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall hanfodion bwyta'n iach a phwysigrwydd ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gallu sôn am fwydydd iachus, rheini sydd ddim mor iachus, a sut mae gwahanol fwydydd yn effeithio ar y corff. Mae'r disgyblion hŷn yn esbonio'n glir effaith ymarfer corff ar guriad y galon, er enghraifft. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn hoffi mynychu hyfforddiant nofio yn wythnosol a chymryd rhan yn y clybiau allgyrsiol a chwaraeon yn rheolaidd. Mae hyn oll yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau personol a chymdeithasol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae’r athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu effeithiol i ddisgyblion, ac yn eu cynnwys yn effeithiol yn y broses o ddewis y trywyddion nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae gan y disgyblion berchnogaeth dda o’u dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu yn fedrus ac yn cyflwyno gwersi bywiog. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda. Maent yn cynllunio’n drylwyr ac yn cyflwyno amcanion dysgu penodol i’r disgyblion. Maent yn darparu gweithgareddau ac adnoddau addas sy’n gweddu’n dda i ddiddordebau disgyblion. Mae’r cynlluniau gwaith ar gyfer y cwricwlwm o safon uchel ac yn ystyried gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn briodol. Mae’r athrawon yn rhoi pwyslais cryf ar godi safonau disgyblion trwy dargedu gweithgareddau gwahanol, fel sicrhau safonau darllen da. Mae’r cynllunio i ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion yn arbennig o lwyddiannus ac yn cael ei weithredu’n gyson ar draws yr ysgol.

Mae’r staff yn hyrwyddo Cymraeg cywir yn gyson ac mae hyn yn cyfoethogi ansawdd iaith lafar disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am eu hardal, a hanes a diwylliant Cymru. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion wybodaeth dda am enwogion fel Dewi Emrys, T Llew Jones a’r cymeriad hanesyddol lleol, Jemima Niclas. Mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth o ymweliadau a gweithgareddau diddorol yn y gymuned a thu allan i’r ardal.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i fynegi barn a gwneud cyflwyniadau bywiog. Mae cynllunio ar gyfer medrau TGCh disgyblion yn datblygu’n dda ac yn eu galluogi i ddefnyddio amryw adnoddau i gynorthwyo eu dysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar adegau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu medrau ysgrifennu estynedig ychydig o ddisgyblion ac nid yw’r cynllunio yn sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae’r athrawon yn holi disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddefnyddio’u medrau llythrennedd a meddwl yn gyson. Mae’r staff ac oedolion eraill yn datblygu perthynas weithio effeithiol gyda disgyblion, sy’n meithrin eu dysgu yn llwyddiannus. Mae’r cymorthyddion dysgu yn cydweithio’n llwyddiannus gyda’r athrawon i gefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion penodol. Mae’r athrawon yn rheoli eu hystafelloedd dosbarth yn effeithiol, gan hyrwyddo ymddygiad da ac annog disgyblion i ganolbwyntio’n dda ar eu tasgau. Maent yn sicrhau cyflymder addas i’w gwersi sy’n arwain at lefelau ymrwymiad uchel ymysg y disgyblion. Ar adegau prin, lle nad yw’r addysgu cystal, nid yw’r athrawon yn cynnig digon o her i’r holl ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae athrawon yn cynnig adborth llafar adeiladol i ddisgyblion ar eu hymdrechion yn y gwersi. Mae gweithdrefnau addas ar waith i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu’n gadarn. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o’r safle i gyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblon. Er enghraifft, maent yn defnyddio’r fforest a’r ardd fach gerllaw'r ysgol yn bwrpasol i ymchwilio i fyd natur yr ardal.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da yn llwyddiannus. Golyga hyn fod y disgyblion yn ymddwyn yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd ac eraill. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffocws amlwg a roddir ar les pob disgybl. Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwerthoedd yn nodwedd gref ym mywyd yr ysgol ac mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gadarn yn hyrwyddo agweddau fel cydraddoldeb ac amrywiaeth yn llwyddiannus. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac mae perthynas weithio lwyddiannus iawn gydag aelodau'r staff.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn bwrpasol i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer y disgyblion ac i ddarparu ymyraethau addas i'r rheini sydd angen cymorth ychwanegol. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol cynhwysfawr sydd wedi cael ei lunio mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae'r athrawon yn monitro cynnydd y disgyblion sy'n derbyn ymyraethau yn gydwybodol. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar mae'r ysgol wedi targedu disgyblion mwy abl.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol drwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a digwyddiadau sy'n hybu medrau creadigol. Er enghraifft, mae arweinwyr crefyddol lleol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion berfformio mewn cyngherddau adeg y Nadolig a'r Pasg ac i gystadlu mewn cystadlaethau lleol. Yn ogystal, caiff disgyblion gyfleoedd priodol i fynychu canolfannau preswyl yn Llangrannog ac yng Nghaerdydd. Mae'r profiadau maent yn eu cael yn yr ysgol a thu hwnt yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth ynghyd â pharchu amrywiaeth yng Nghymru ac yng ngweddill y byd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus ac mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, trefnir ystod o gyfleoedd effeithiol i ddatblygu ffitrwydd y disgyblion, fel clybiau chwaraeon. Mae'r disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd i weithio yn yr ardd a thyfu planhigion i werthu i rieni. Mae ymweliadau gan unigolion, fel yr heddwas lleol, yn addysgu disgyblion am beryglon defnyddio'r we a chamddefnyddio sylweddau ac ysmygu.

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau pwrpasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r bartneriaeth agos sy'n bodoli gyda'r rhieni. Trwy nosweithiau agored a chyfarfodydd unigol gydag athrawon, rhoddir cyfleoedd cyson i rieni drafod cynnydd a thargedau eu plant. Mae'r ysgol yn dosbarthu amserlen wythnosol o ansawdd da i rieni i sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddefnyddiol gyfredol am y gweithgareddau sydd ar fin digwydd. Mae'r ysgol yn manteisio ar arbenigedd rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynorthwyo darllenwyr yn y dosbarthiadau ac i gynnal clybiau ysgol. Mae'r defnydd o Hwb, sef adnodd electronig i ddisgyblion ac athrawon, yn gymorth i bontio'n effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth ar y safle a'r pennaeth gweithredol yn cynnig arweinyddiaeth gadarn a chyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae'r ddwy ohonynt yn hynod effeithiol wrth osod a hybu eu gweledigaeth, sy'n ffocysu'n glir ar godi safonau disgyblion a meithrin perthnasoedd cymunedol. Ar y cyd, maent yn llwyddo i hyrwyddo disgwyliadau uchel ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd o fywyd yr ysgol yn cael dylanwad clir a chadarnhaol iawn ar gyrhaeddiad a lles y disgyblion ac yn sicrhau ethos cartrefol a chymuned drefnus. Mae'r arweinwyr yn derbyn cefnogaeth gref gan aelodau'r staff.

Mae strwythur staffio'r ysgol yn bwrpasol gyda phob aelod staff â disgrifiadau swydd glir a manwl. Mae hyn yn eu galluogi i gymryd cyfrifoldebau am agweddau penodol ar waith yr ysgol. Maent yn cydweithio'n agos iawn fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd a chynllunio ar y cyd. Maent yn barod iawn i rannu eu harbenigeddau er lles y disgyblion. Un o gryfderau'r arweinyddiaeth yw'r ffordd mae'r penaethiaid yn sicrhau atebolrwydd pob aelod staff. Trwy ddefnydd medrus o weithdrefnau rheoli perfformiad, maent yn llwyddo i ddwyn staff i gyfrif yn effeithiol am eu perfformiad.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae datblygiad y Gymraeg yn gryfder trwy'r ysgol ac mae hyn yn cryfhau medrau disgyblion yn yr iaith yn dda. Yn ogystal, mae'r ysgol yn paratoi'n bwrpasol i wireddu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol, yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn briodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth foddhaol o berfformiad yr ysgol a gwyddant sut mae hyn yn cymharu ag ysgolion tebyg eraill. Yn ddiweddar, mae rhai o'r llywodraethwyr wedi dechrau cymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Ar hyn o bryd, cyfyng yw eu rôl wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gynhwysfawr a thrylwyr, gyda phob aelod o gymuned yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at y broses. Mae'r arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol yn fedrus i adnabod cryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata, craffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi a chynnal teithiau ddysgu. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r broses yn amlygu'n glir ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae gan weithgareddau monitro ffocws miniog er mwyn arwain at welliannau mewn agweddau penodol ar waith yr ysgol. Mae cyswllt amlwg rhwng gweithgareddau hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae ystod o gyfleoedd hyfforddiant addas ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a chymorthyddion. Er enghraifft, mae'r hyfforddiant a ddarparwyd i wella safonau darllen disgyblion yn y Gymraeg eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwna ddefnydd effeithiol o fedrau unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, defnyddir arbenigedd staff yn fedrus i

addysgu pynciau fel iaith a mathemateg ar draws y cwricwlwm. Mae’r ysgol yn defnyddio’r ardal tu allan yn llwyddiannus ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol wrth weithio yn y fforest a’r awyr agored er mwyn gwella medrau disgyblion. Mae arweinwyr yn rheoli’r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu’n dda â’r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Nid oes unrhyw ddisgyblion wedi bod yn gymwys i dderbyn y grant datblygu disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/02/2018